# DEDDF RHEOLEIDDIO LANDLORDIAID CYMDEITHASOL COFRESTREDIG (CYMRU) 2018

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Gwarediadau tir***

***Adran 13 - Gwaredu tir: cydsyniad***

**Adran 81 o Ddeddf Tai 1988**

79. Mae adran 81 o Ddeddf Tai 1988 yn ymwneud â gwarediadau dilynol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig pan oedd y gwarediad gwreiddiol yn warediad gan ymddiriedolaeth gweithredu tai.

80. O dan adran 81 o Ddeddf Tai 1988, os oedd ymddiriedolaeth gweithredu tai yn dymuno gwaredu t# a oedd yn ddarostyngedig i denantiaeth ddiogel neu denantiaeth ragarweiniol i landlord cymdeithasol cofrestredig, roedd rhaid i'r trawsgludiad gynnwys gofyniad ei bod yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru (os oedd y tir yng Nghymru) neu'r Ysgrifennydd Gwladol (os oedd y tir yn Lloegr) pe bai'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn dymuno gwaredu'r t# wedi hynny.

81. Mae adran 81 yn cael ei diddymu ac effaith hynny yw na fydd yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael cydsyniad Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol cyn iddynt waredu t# o'r math y cyfeirir ato yn y paragraff uchod.